Stori'r Clai Bach



Roedd Clai Bach yn byw ger glan yr afon, o dan y gwair, uwchben y pysgod ac wrth ymyl y mwydod.

Un diwrnod, daeth crochenydd i gloddio clai i wneud pethau ag ef. Rhoddodd hi Clai Bach yn ei berfa gyda chlai arall.



"Lle dwi'n mynd? " gofynnodd Clai Bach

"I'r Crochendy!" dywedodd Clai Mawr

"Beth yw Crochendy?" gofynnodd Clai Bach

"Yn y crochendy y mae'r crochenydd yn troi clai meddal a slwtshlyd yn bethau cryf a chaled." Dywedodd Clai Mawr

"Fel beth?" gofynnodd Clai Bach

"Mae rhai talpau o glai yn cael eu troi'n frics neu'n deils to, a hyd yn oed sinciau a baddonau a thoiledau, i dai!" Dywedodd Clai Mawr.

"Wel, mae toiledau fel rheol yn cael eu gwneud mewn ffatrïoedd bellach, mae'r rhan fwyaf o grochenyddion yn gwneud pethau bach fel cwpanau, powlenni neu debotau!" Dywedodd Mrs Clai

"Sut?" gofynnodd Clai Bach

"Mae'r crochenydd yn gwneud siâp allan o'r clai ac yn ei roi mewn ffwrn boeth iawn, iawn o'r enw



odyn lle mae'r clai yn troi'n galed." Dywedodd Mrs Clai, "Weithiau mae'r crochenydd yn addurno'r clai gyda phatrwm ac yn ei orchuddio â sglein i'w wneud yn llachar a disglair!"

"Alla i ddim aros i weld beth wnaiff hi allan ohono i!" dywedodd Clai Bach.

Aeth y crochenydd â'r holl glai y gwnaeth hi ei gloddio o lan yr afon i'w gweithdy. Fe drodd hi Mrs Clai yn ffigwr hardd a Clai Mawr yn jwg frown neis. Yna rhoddodd hi Clai Bach ar ei throell crochenydd.

"Hmmm" dywedodd "Beth wna i allan ohonot ti?"

Troellodd hi Clai Bach rownd a rownd ar y droell a'i siapio gyda'i dwylo, yna gwnaeth hi ei beintio a'i addurno, ei roi yn yr odyn i'w grasu, ac yna rhoi sglein arno a'i grasu eto. "Dyna ni, wedi gorffen!" dywedodd y Crochenydd ar ôl iddo oeri, "Rhaid i ti aros yn y crochendy gyda mi yn gwpan te arbennig i mi!

Ac felly gwnaeth Clai Bach fyw'n hapus gyda'r crochenydd yn y crochendy.